Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

# Canllawiau Cynllun Symiau Gohiriedig Mannau Agored Hamdden

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg. This document is available in English.

# Canllawiau Cynllun Symiau Gohiriedig Mannau Agored Hamdden Cyhoeddus

## Cynnwys


Pwrpas 3

Cefndir 3

Rowndiau Cyllid 3

Pwy all wneud cais am gyllid? 4

Prosiectau Cymwys 4

Asesiad a Meini Prawf Cais 5

Cwblhau Cynlluniau 6

Cymorth Ychwanegol 7

# Canllawiau Cynllun Symiau Gohiriedig Mannau Agored Hamdden Cyhoeddus

## Pwrpas

Pwrpas y ddogfen hon yw rhoi canllawiau i ymgeiswyr sy'n ceisio arian gan y Cynllun Symiau Gohiriedig Mannau Agored Hamdden Cyhoeddus. Mae'n nodi cefndir y cynllun, y meini prawf cymhwyso a'r broses asesu.

## Cefndir

Mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn ceisio gwarchod mannau agored hamdden cyhoeddus sy'n bodoli'n barod, er mwyn sicrhau fod datblygiadau newydd yn gwneud cyfraniad digonol tuag at fannau agored yn yr ardal leol. Gosodir y safonau ar gyfer faint o fannau agored y dylid eu darparu ar safleoedd datblygu a'r trothwyon ar gyfer darpariaeth ar y safle. Lle nad yw darpariaeth ar y safle yn ddichonadwy neu ei fod yn is na'r trothwy a nodir, mae swm gohiriedig yn daladwy i sicrhau fod anghenion hamdden trigolion neu ddefnyddwyr y datblygiad newydd yn cael eu bodloni o fewn yr ardal leol honno.

Er mwyn bodloni gofynion cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 13/97 Rhwymedigaethau Cynllunio mae'n rhaid gwario unrhyw symiau gohiriedig a gynhyrchir, ar fan agored hamdden cyhoeddus sydd o fudd uniongyrchol i breswylwyr neu ddefnyddwyr y datblygiad a greodd y swm gohiriedig yn y lle cyntaf. Disgwylir i bob cais ddangos sut mae'r gofyniad hwn yn cael ei fodloni.

## Rowndiau Cyllid

Cesglir taliadau symiau gohiriedig mannau agored drwy gydol y flwyddyn ac fe'i ceir mewn cyfrifon yn seiliedig ar ardaloedd cynghorau dinas, tref a chymuned. Pan fydd swm rhesymol o arian wedi casglu, caiff yr arian sydd ar gael ym mhob ardal ar draws y sir ei hysbysebu. Fel arfer bydd hyn yn digwydd unwaith y flwyddyn yn yr hydref.

Bydd arian ar gael yn ardaloedd cynghorau dinas, tref a chymuned lle mae cytundebau symiau gohiriedig mannau agored yn bodoli, a lle mae'r amodau angenrheidiol wedi eu bodloni er mwyn gwneud taliadau cyn i'r arian gael ei hysbysebu.

# Canllawiau Cynllun Symiau Gohiriedig Mannau Agored Hamdden Cyhoeddus

## Pwy all wneud cais am gyllid?

Mae sefydliadau sy'n cael gwneud cais am arian yn cynnwys:

a) Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned

b) Grwpiau gwirfoddol a chymunedol

c) Elusennau

d) Sefydliadau sector cyhoeddus

e) Clybiau chwaraeon amatur

f) Cyngor Sir Ddinbych

Ni fydd clybiau chwaraeon a chlybiau aelodaeth breifat nad ydynt n cynnig y dewis i 'dalu a chwarae', yn gymwys i wneud cais am arian.

## Prosiectau Cymwys

Gellir defnyddio'r arian i greu mannau agored newydd neu i wella'r ddarpariaeth bresennol, a thrwy hynny gynyddu'r defnydd.

Gall gwelliannau dilys i'r ddarpariaeth bresennol gynnwys:

a) diweddariadau i'r amrediad o gyfleusterau sydd ar gael (gan gynnwys diweddaru hen offer) ond nid cyfnewid eitemau nad oes modd eu defnyddio oherwydd diffyg gwelliannau cynnal a chadw er mwyn i'r safle/cyfleuster fod yn fwy hygyrch;

b) gwaith i gynyddu defnydd o'r cyfleuster (h.y. arwyneb pob tywydd);

c) draenio neu waith arwyneb er mwyn ymestyn y defnydd o'r cyfleuster;

d) gwaith ffensio a goleuo er mwyn gwneud y cyfleuster yn fwy diogel;

e) darparu cyfleusterau newid er mwyn cynyddu'r defnydd;

# Canllawiau Cynllun Symiau Gohiriedig Mannau Agored Hamdden Cyhoeddus

f) parcio ceir, neu wasanaethau hanfodol eraill i gynyddu ac ymestyn defnydd.

Mae arian ar gael ar gyfer mannau agored hamdden cyhoeddus yn yr awyr agored ac sydd â mynediad agored a'r dewis i 'dalu a chwarae'.  Mae mannau agored fel ardaloedd gwyrdd a choetiroedd yn gymwys cyn belled â bod y prosiect yn cynyddu gwerth hamdden y lleoliad. Mae parciau a gerddi ffurfiol ble gall pobl ymarfer hefyd yn gymwys fel y maen cyfleusterau chwaraeon ffurfiol gyda mynediad cyhoeddus agored.

Am fwy o wybodaeth am bolisïau'r Cynllun Datblygu Lleol a chanllawiau cynllunio atodol, ewch i dudalennau Local Development Plan ar wefan Cyngor Sir Ddinbych.

## Asesiad a Meini Prawf Cais

Ystyrir ceisiadau mewn ymgynghoriad â swyddogion y cyngor sir a Grŵp Ardal yr Aelod. Nid oes hawl i apelio yn yr achos hwn, er y gellir gwneud sylwadau i'r Cyngor cyn i'r arian gael ei ddyrannu.

Bydd angen i ymgeiswyr roi tystiolaeth fod ymgysylltu â'r gymuned wedi digwydd, a bod cefnogaeth gan y Cyngor Dinas, Tref neu Gymuned perthnasol.

**Meini Prawf Asesu**

Caiff prosiectau eu hasesu yn erbyn y rhestr meini prawf a restrir isod. Ni ddisgwylir i brosiect ateb holl ofynion y meini prawf a restrir, ond fe ffefrir prosiectau sy'n bodloni cyfran uwch o'r meini prawf ariannu.

a) Wedi ei leoli o fewn y cyngor tref neu gymuned ble mae'r datblygiad newydd yn digwydd (os nad yw o fewn y cyngor tref neu gymuned perthnasol, dylai fod o fewn cyrraedd hawdd iddo – yn enwedig ar droed).

b) Rhan o strategaeth gyffredinol i wella mannau agored hamdden cymunedol.

c) Yn bodloni angen neu ddiffyg cydnabyddedig yn lleol, naill ai drwy ddarparu cyfleuster newydd neu ymestyn un cyfredol. Yn yr ystyr hwn, defnyddir safonau Cymdeithas Caeau Chwarae Cenedlaethol neu safonau tebyg y cytunir arnynt.

d) Cynyddu'r defnydd neu ymestyn cyfnod defnydd yn sylweddol.

e) Ymestyn neu ledaenu'r defnydd presennol er mwyn darparu defnydd ychwanegol.

f) Darparu neu ymestyn defnydd ar hyd y flwyddyn.

g) Darparu defnydd i bob oed, rhyw, chwaraeon ac adrannau o'r gymuned leol – cynyddu cynhwysiad / hygyrchedd cymdeithasol i rai anabl.

h) Darparu gwerth am arian (ni fydd cyfleuster drud heb lawer o ddefnydd arno yn cael ei ffafrio).

i) Yn dod ag arian ychwanegol sylweddol drwy gyfrwng arian cyfatebol.

j) Enghraifft dda o bartneriaeth gyhoeddus/preifat er budd y gymuned leol gyfan.

k) Ar gael i'r cyhoedd yn gyffredinol a lle bynnag bo modd, mae am ddim neu am dâl bychan.

Mae'n rhaid i bob prosiect fod o fudd uniongyrchol i breswylwyr neu ddefnyddwyr y datblygiad a greodd y swm gohiriedig yn y lle cyntaf a rhaid iddo allu dangos cefnogaeth gymunedol yn lleol.

## Cwblhau Cynlluniau

Bydd terfyn amser ar arian a dyfernir. Rhaid cwblhau prosiectau o fewn 24 mis i'w cymeradwyo. Fel arall, bydd y dyfarniad yn dod i ben a bydd angen i ymgeiswyr ail-ymgeisio.

Bydd ymgeiswyr yn cael arian gan y Cyngor ar ôl cyflwyno ffurflen hawlio a gefnogir gan anfonebau taledig ar gyfer y gwariant cymwys y cytunir arno, a bydd rhaid sicrhau fod yr holl gofnodion angenrheidiol yn cael eu cynnal yn ystod ac ar ôl cwblhau'r prosiect at ddibenion archwilio. Dim ond pan fydd yr angen wedi ei ddangos yn glir y gwneir taliadau fesul cam.

# Canllawiau Cynllun Symiau Gohiriedig Mannau Agored Hamdden Cyhoeddus

Cyfrifoldeb Cyngor Sir Ddinbych, y Tîm Cynllunio Strategol (Gwella Busnes a Moderneiddio) fydd rheoli'r cyllid yn ariannol ac yn weinyddol. Cedwir yr arian mewn cyfrif sy'n ennill llog ar wahân a chaiff ei glustnodi ar gyfer darpariaeth man agored. Telir yr arian y cytunwyd arno ar gyfer gwariant ar weithgareddau/costau cymwys a chaiff ei dalu'n uniongyrchol i sefydliad yr ymgeisydd.

## Cymorth Ychwanegol

Os oes angen canllawiau ychwanegol yn ymwneud a'r cais cysylltwch â'r Tîm Datblygu Cymunedol ar: datblygucymunedol@sirddinbych.gov.uk